



NODIADAU ATHRO AR DAN Y WENALLT

- Cyfieithiad y prifardd T. James Jones o ddrama radio Dylan Thomas **Under Milk Wood** yw **Dan y Wenallt** a llwyfannwyd ef gyntaf yn 1967, yn Nhalacharn.
- Ym mis Ionawr 1954 ar y BBC y perfformiwyd y ddrama wreiddiol gyntaf; gorffennodd Dylan Thomas hi pan oedd ar ei ymweliad olaf â Efrog Newydd, lle bu farw ym 1953.
- 'Drama i leisiau' yw hi, sy'n ein gwahodd i wrando ar freuddwydion trigolion pentref o'r enw Llareggub – sef enw jocolyd sy'n sillafu rhag ysgafn o'i ddarllen am yn ôl. Gellir gweld map o Llareggub, ymhlith deunyddiau eraill o'i eiddo sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth trwy fynd i <http://centenary.llgc.org.uk/en/XCM1947/events/2.html>
- Mae T. James Jones wedi ei chyfieithu yn arddull iaith lafar cefn gwlad sir Gaerfyrddin yng nghanol yr ugeinfed ganrif; acen de Cymru a fyddai wedi bod yn arferol i lawer o'r cymeriadau.
- Mae llawer yn credu bod lleoliad y ddrama wedi ei seilio ar bentref Talacharn yn sir Gaerfyrddin, lle roedd Dylan wrth ei fodd yn treulio amser, a lle mae wedi ei gladdu. Mae eraill yn gweld dylanwadau bywyd Cei Newydd yno hefyd, sef un arall o hoff fannau Dylan.
- Mae'r ddrama'n agor gydag agoriad enwog, llawn awyrgylch sy'n disgrifio pentref yn cysgu yn nhrymder nos dywyll, ac mae recordiad o lais Dylan Thomas yn darllen hwn yn adnabyddus iawn. Fel bardd, roedd sain geiriau yn bwysig iawn iddo. Gellir clywed y llais ar <http://www.youtube.com/watch?v=FjJt4P4w8io>
- Mae llais yn ein cyflwyno i'r pentref, ac i gymeriad Capten Cat, sef y morwr dall sy'n clywed lleisiau ei hen ffrindiau yn galw arno o'r tu hwnt i'r bedd. Yn y ddrama mae fel petai'n edrych allan o'i ffenest ac yn clywed y pentref yn deffro.
- Mae'r ddrama yn llawn o gymeriadau difyr iawn sy'n gwerylgar, yn fflyrtio, yn anfoesol, yn barchus, yn ddi-drefn ac yn hollol gysáct. Yn yr amrywiaeth mae llawer iawn o hiwmor. Ac mae'r iaith mae'r cymeriadau yn ei defnyddio hefyd yn ddoniol – mae'n iaith lafar bob dydd i lawer ohonyn nhw, ac mae Dylan Thomas wedi eu cymeriadu nhw'n gynnes. Mae wedi dal nodweddion teipiau gwahanol o bobl ac mae'n eu dangos nhw'n onest, gyda'u holl wendidau.



DYLAN THOMAS

BARDD ROC A RÔL - CA3

- Ry'n ni'n gwranddo ar bobl y pentref yn mynd o gwmpas eu gwaith bob dydd yn y ddrama, gan glywed eu breuddwydion a'u hatgofion yn plethu drwy'i gilydd.
- Ceir cymeriadau megis Poli Gardis, sy'n hiraethu am hen gariad a fu farw, Mrs Ogmor Pritchard a'i dau wr, Mr Ogmor a Mr Pritchard, Dai Bara a'i wragedd Mrs Dai Bara Gwyn a Mrs Dai Bara Brown – dwy fenyw wahanol, un yn fenyw gartrefol a'r llall yn dipyn o bishyn. Mae Mr Puw yn breuddwydio am ladd Mrs Puw, ac ma' Lili Bwt yn ei hedmygu ei hunan yn y drych.
- Mae ffilmiau o'r ddrama wedi eu creu – ffilmwyd un yn Abergwaun gyda Richard Burton a Ryan Davies yn chwarae rhannau'r ddau lais cyflwyno. Mae fersiwn wedi ei hanimeiddio hefyd.